

Hysbyseb a Disgrifiad o'r Rôl Cyfarwyddwr Anweithredol Golff Cymru

Rôl - Cyfarwyddwr Anweithredol: Cyllid

Mae Golff Cymru yn gwahodd ceisiadau am y rôl Cyfarwyddwr Anweithredol: Cyllid. Mae'r elfennau allweddol o'r rôl, y sgiliau a'r priodoleddau y mae Golff Cymru yn chwilio amdanynt yn yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael eu nodi isod.

Nid yw profiad Bwrdd blaenorol yn ofynnol ar gyfer y rôl hon.

Ymrwymiad amser: Tua 20 - 25 diwrnod y flwyddyn

Cydnabyddiaeth ariannol: Rôl wirfoddol (telir treuliau)

Lleoliad: Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd yng Nghasnewydd neu Gaerdydd (5 y flwyddyn) gydag opsiwn i fynychu rhai cyfarfodydd trwy gynhadledd fideo.

Hyd y rôl: 3 blynedd (telerau pellach ar gael yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd)

Mae Golff Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig addas a chymwys beth bynnag yw eu rhyw, hil, anabled, oed, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd na chred. Byddem yn croesawu ceisiadau'n arbennig gan bobl o gymunedau ethnig amrywiol sy'n cael eu tangynrychioli ar ein Bwrdd.

Ynghylch Golff Cymru

Golff Cymru yw'r corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer golff yng Nghymru yn gyfrifol am hyrwyddo a datblygu'r gêm yng Nghymru gyda phwyslais ar y gêm amatur.

Golff yw un o'r prif chwaraeon yng Nghymru gyda thua 100,000 yn cymryd rhan; mae dros 50,000 yn aelodau o glybiau sy'n gysylltiedig â Golff Cymru,

Drwy gyfrwng ei dîm datblygu mae Golff Cymru yn darparu cymorth ymarferol a chynghor i glybiau cyswllt ac yn cynnal nifer o fentrau i helpu cyflwyno chwaraewyr iau ac oedolion i'r gamp. Mae'n rhedeg rhaglenni perfformiad uchel ar gyfer golffwyr sy'n datblygu a golffwyr elitaidd, yn dewis holl dimau cenedlaethol, yn rheoli ac yn gweinyddu system handicap golff yng Nghymru.

Crynodeb o'r Rôl

Yn atebol i'r Cadeirydd a'r Bwrdd bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn defnyddio ei brofiad a'i wybodaeth i gynghori'r Bwrdd ar faterion ariannol a chyfrifyddu cyffredinol, goruchwyllo a chynorthwyo i baratoi adroddiadau a rhagolygon ariannol, a sicrhau bod prosesau a rheolaethau rheolaeth ariannol briodol ar waith.

Fel Cyfarwyddwr Anweithredol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyfrannu at ddatblygiad parhaus strategaeth Golff Cymru, helpu i oruchwyllo cyflawni ei strategaeth yn llwyddiannus a hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu ym mhob rhan o'r sefydliad.

Prif Gyfrifoldebau

Ariannol

Cynghori'r Bwrdd ar faterion ariannol a chyfrifyddu cyffredinol.

Paratoi cyllideb flynyddol i'w chymeradwyo gan y Bwrdd, adolygu perfformiad yn erbyn y gyllideb (chwarterol), gosod rhagolygon ariannol, ac adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd ar y materion hyn.

Goruchwylio a chynorthwyo i gynhyrchu'r adroddiad blynyddol a chyfrifon ac arwain y Bwrdd ar benodi archwilwyr.

Gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar y lefel ar gyfer pennu tanysgrifiadau blynyddol Golff Cymru gan glybiau cyswllt.

Bod yn aelod o'r pwyllgor taliadau a chyfrannu at yr adolygiad blynyddol o gyflogau staff.

Gweithio gyda staff Golff Cymru i sicrhau bod prosesau rheolaeth ariannol a rheolaethau mewnol y Cwmni yn briodol.

Cynorthwyo deiliaid cyllidebau yn ôl yr angen i reoli eu meysydd cyllideb a chynhyrchu rhagolygon alldro wedi'u diweddarau

Gweithredu fel llofnodwr cyfrif.

Cydgysylltu â rhanddeiliaid allanol gan gynnwys Chwaraeon Cymru a phartneriaid ariannu eraill ar faterion ariannol yn ymwneud â Golff Cymru os oes angen.

Arweinyddiaeth a datblygiad strategol

Cymryd rhan i ddatblygu pwrpas, diwylliant a gwerthoedd Golff Cymru, a sefydlu ei amcanion strategol.

Trosolwg o berfformiad y Cwmni yn erbyn ei amcanion strategol.

Cyfrannu at berthynas adeiladol rhwng y Bwrdd a'r tîm gweithredol.

Cyfrannu at amgylchedd sy'n annog trafodaeth agored a her adeiladol.

Llywodraethu a stiwardiaeth ariannol

Sicrhau safonau gorau o ran llywodraethu corfforaethol gyda chyfrifoldebau ymddiriedolwyr a statudol y Bwrdd.

Sicrhau bod y Cwmni yn cynnal system gadarn o reolaethau mewnol a rheoli risg.

Cyfrannu at werthusiad blynyddol o berfformiad y Bwrdd.

Sicrhau bod y cwmni yn cynnal sefyllfa ariannol briodol ac yn cymeradwyo cynllun ariannol blynyddol ac yn monitro perfformiad yn ei erbyn i ddiweddarau yn ôl yr angen.

Arall

Mynychu a chyfrannu'n effeithiol yng Nghyfarfodydd Bwrdd Golff Cymru (5 y flwyddyn) a chyfarfodydd a digwyddiadau pwyllgor eraill yn ôl yr angen gan gynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Cyfrannu cyngor mewn unrhyw feysydd o brofiad perthnasol.

Manyleb y person delfrydol

Profiad

Hanfodol

- Cyfrifydd cymwys gyda phrofiad diweddar a pherthnasol naill ai mewn amgylchedd ymarferol neu fusnes
- Hanes cryf o gyflawniad yn ei yrfa weithredol.
- Profiad o weithio mewn amgylchedd sy'n ymwneud â datblygu strategaeth a gweithredu.

Dymunol

- Sgiliau mewn modelu ariannol a chynllunio senarios
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion llywodraethu corfforaethol da.
- Dealltwriaeth o ddyletswyddau a chyfrifoldebau o ddod yn gyfarwyddwr cwmni.
- Er bod dealltwriaeth o'r gêm golff yn ddymunol, mae Golff Cymru wedi ymrwymo i ddewis aelodau'r Bwrdd yn seiliedig ar eu gallu i gyflawni'r rôl y maent yn cael eu recriwtio ar ei chyfer. Rydym yn annog ymgeiswyr o bob sector o'r gymuned.

Nodweddion a galluoedd personol

Gallu cwestiynu yn ddeallus, herio yn drylwyr a dadlau yn adeiladol.

Gallu i benderfynu mewn ffordd ystyrlon a phwyllog.

Sgiliau rhyngpersonol cryf.

Safonau moesegol uchel o onestrwydd ac uniondeb ac ymrwymiad i werthoedd Golff Cymru a diwylliant o gynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gallu ennyn ymddiriedaeth a pharch aelodau eraill o'r Bwrdd a staff Golff Cymru.

Ymrwymiad i gynnal y diddordeb am Golff Cymru a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo.

Dyddiad cau 11 Gorffennaf 2022

Dylai ymgeiswyr ddychwelyd y **ffurflen wedi'i chwblhau a CV** drwy e-bost i sian.simmons@walesgolf.org.

Gall ymgeiswyr hefyd lenwi a dychwelyd ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal (dewisol) i'r cyfeiriad e-bost uchod.

Disgwylir cynnal cyfweiliadau ar 2 Awst 2022